

Cynrychioli Cymru

Ein cynllun ni i helpu gwahanol fathau o bobl i gymryd rhan mewn mudiadau cyhoeddus



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Adlewyrchu Cymru wrth Reoli Cymru: Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru (2020 – 2023)'**.

Chwefror 2020

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y bydd arnoch chi angen cefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bydd geiriau mewn ysgrifennu **glas trwm** yn anodd i'w deall. Mae'n dweud beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn ysgrifennu **glas cyffredin**. Gallwch chi edrych ar beth mae'r geiriau mewn glas yn ei feddwl ar dudalen 18.



Pan fydd y ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:



Gwefan: www.llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus

E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru



Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon.....	2
Cyrff Cyhoeddus.....	4
Ein cynllun.....	7
1. Dod o hyd i fwy o wybodaeth am aelodaustet Bwrdd yn awr.....	7
2. Helpwch i gynnu diddordeb mewn mwy o bobl a'u cael yn barod i fod yn aelod o Fwrdd.....	10
3. Gwneud yn siŵr ein bod ni'n deg pan fyddwn ni'n penderfynu pwy sy'n cael bod yn aelod o Fwrdd.....	11
4. Gwneud yn siŵr bod Byrddau Cyrff Cyhoeddus yn gweithio gyda ni i wneud pethau'n well.....	12
5. Gwella arweiniad.....	14
Sut byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod ein cynllun ni yn gweithio.....	16
Geiriau Anodd.....	18



Cyrff Cyhoeddus

Mae **Cyrff Cyhoeddus** yn sefydliadau sy'n cael eu cychwyn gan **Lywodraeth Cymru** er mwyn helpu i redeg Cymru mewn ffordd dda.



Mae llawer o **Gyrff Cyhoeddus** yng Nghymru fel:

- **Byrddau Iechyd** sy'n rhedeg ein hysbytai a'n gofal iechyd ni.



- **Cyngor Celfyddydau Cymru** sy'n rhoi arian i brosiectau celfyddyd.



- **Amgueddfa Genedlaethol Cymru** sy'n rhedeg rhai amgueddfeydd.



- **Comisiynydd Plant Cymru** sy'n gwneud yn siŵr bod plant yn cael eu trin yn dda.



- **Cyfoeth Naturiol Cymru** sy'n gwneud yn siŵr bod ein **hamgylchedd** ni yn lân a diogel.



Yr **amgylchedd** yw'r lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr a'r aer, a phopeth sy'n byw arno neu ynddofe. Er enghraifft: planhigion, anifeiliaid a physgod.



- **Cyngor Chwaraeon Cymru** sy'n rhoi arian i fudiadau chwaraeon.



Mae pob **Corff Cyhoeddus** yn cael ei redeg gan grŵp o bobl sy'n cael ei alw'n **Fwrdd**.

Mae **Bwrdd** yn grŵp o bobl sy'n dweud wrth fudiadau sut i weithio'n dda a gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gwneud gwaith da.



Pan fydd **Corff Cyhoeddus** am ddod o hyd i bobl i fod yn aelod o **Fwrdd** byddan nhw'n rhoi hysbyseb ar wefan **Llywodraeth Cymru**.



Bob blwyddyn mae tua 100 o bobl yn dod yn aelod o **Fwrdd Corff Cyhoeddus**.



Os oes arnoch chi eisiau bod yn aelod o **Fwrdd Corff Cyhoeddus** mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen gais a chael cyfweiliad.



Mae rhai aelodau o **Fwrdd Corff Cyhoeddus** yn cael eu talu i wneud hynny.



Nid yw pobl eraill yn cael eu talu, ond maen nhw'n cael arian i deithio i gyfarfodydd.



Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod **Byrddau Cyrff Cyhoeddus** yn cynnwys llawer o wahanol fathau o bobl. A bod pawb yn cael cyfle teg i ddod yn aelod o **Fwrdd** a chymryd rhan.



Rydyn ni'n meddwl bod hyn yn bwysig oherwydd:

- Ei bod hi'n iawn bod pawb yn cael ei drin yn deg.



- Mae'r gyfraith yn dweud y dylen ni drin pawb yn deg.



- Bydd **Byrddau'r Cyrff Cyhoeddus** yn gwneud gwell gwaith os oes gan eu haelodau nhw lawer o wahanol fedrau ac maen nhw wedi cael llawer o wahanol brofiadau.

Ein cynllun ni

1. Dod o hyd i fwy o wybodaeth am aelodau Bwrdd yn awr



Mae arnon ni eisiau gweld pa fathau o bobl sy'n aelodau o **Fyrddau**.



Mae arnon ni hefyd eisiau gweld pa fathau o bobl sydd am fod yn aelodau o **Fyrddau**.



Mae arnon ni eisiau gwybod am brofiadau'r bobl hyn.



Bydd hyn yn meddwl dod o hyd i wybodaeth am bethau fel:



- Faint o ddynion a menywod sy'n aelodau o **Fwrdd**.



- Faint o bobl anabl sydd ar **Fwrdd**.



- Faint o bobl ifainc sydd ar **Fwrdd**.



- Faint o Bobl **Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig** sydd ar **Fwrdd**.



Mae Pobl **Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig** yn meddwl pobl sy'n ddu, yn Asiaidd neu sydd o wahanol ddiwylliannau a thraddodiadau i'r rhan fwyaf o'r bobl yn eu cymuned nhw.



- Faint o bobl **Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol** a **Thrawsrywiol** sydd ar **Fwrdd**.



Mae **Lesbiaidd** yn meddwl menyw sy'n cael ei denu at fenywod.



Mae **Hoyw** yn meddwl dyn sy'n cael ei ddenu at ddynion.



Mae **Deurywiol** yn meddwl person sy'n cael ei ddenu at ddynion a menywod.




Mae **Trawsrywiol** yn meddwl rhywun sydd wedi'i eni fel un rhyw ond sydd eisiau byw fel y rhyw arall. Er enghraifft gall person sydd wedi'i eni yn fachgen deimlo fel menyw y tu mewn.



Byddwn nin edrych i weld sut mae'r bobl hyn yn teimlo ynglŷn â bod ar **Fwrdd** a sut mae dod yn aelod o **Fwrdd**.

2. Helpwch i gynnal diddordeb mewn mwy o bobl a'u cael yn barod i fod yn aelod o Fwrdd



Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod mwy o bobl yn gwybod am [Fyrddau Cyrff Cyhoeddus](#).



Mae arnon ni eisiau helpu mwy o bobl i ddod yn aelodau o'r [Byrddau](#) hyn. Hyd yn oed os nad ydyn nhw erioed wedi gwneud hyn o'r blaen.



Mae arnon ni eisiau cychwyn ffyrdd i bobl ddysgu'r pethau sydd eu hangen arnyn nhw i ddod yn aelodau o [Fyrddau](#).



Byddwn yn helpu elusennau a [Chyrff Cyhoeddus](#) ddod o hyd i aelodau [Bwrdd](#) newydd mewn ffordd sy'n cynnwys mwy o bobl.

3. Gwneud yn siŵr ein bod yn deg pan fyddwn ni'n penderfynu pwy sy'n cael bod yn aelod o Fwrdd




Byddwn nin cychwyn ffyrdd newydd i ddod o hyd i bobl i fod ar **Fyrddau**.



Byddwn ni'n dysgu pobl sy'n dewis aelodau **Bwrdd** sut i fod yn deg a chynnwys pobl.



Byddwn ni'n gweithio mewn gwahanol ffyrdd i gwrdd ag anghenion gwahanol bobl. Y ffordd hon fe fyddan nhw'n cael y cyfle gorau i ddod yn aelod o **Fwrdd**.



Pan fydd rhywun yn gwneud cais i fod yn aelod o **Fwrdd** byddwn ni'n dweud wrthyn nhw beth maen nhw'n dda am wneud a'r pethau y gallan nhw eu gwella.



Byddwn ni' meddwl am osod targedau ynglŷn â faint o bobl anabl a faint o bobl **Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig** y mae arnon ni eisiau eu cael ar **Fyrddau**.



Byddwn ni'n gosod targedau ynglŷn â faint o bobl o **grwpiau gwarchodedig** eraill y mae arnon ni eisiau ar **Fyrddau**.



Mae **grŵp gwarchodedig** yn grŵp o bobl y mae arnon ni angen meddwl yn ofalus amdany'n nhw, i wneud yn siŵr nad ydyn nhw'n cael eu trin yn annheg. Efallai y byddan nhw'n cael eu trin yn annheg oherwydd pethau fel eu hoed, anabledd neu oherwydd eu bod yn **ddu** neu o **leiafrif ethnig**.

4. Gwneud yn siŵr bod Byrddau Cyrff Cyhoeddus yn gweithio gyda ni i wneud pethau'n well



Mae arnon ni eisiau i aelodau **Bwrdd** wybod sut i weithio mewn ffordd fydd yn cynnwys mwy o bobl.



Byddwn ni'n hyfforddi holl aelodau **Bwrdd** i weithio mewn ffordd deg.



Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod gan bob **Bwrdd** gynllun ar gyfer gweithio'n deg yn y dyfodol.



Bydd **Gweinidogion Llywodraeth Cymru** yn helpu **Byrddau** i wneud eu cynllun nhw.



Mae **Gweinidog Llywodraeth Cymru** yn aelod o **Llywodraeth Cymru** sydd â gofal am rywbeth. Fel iechyd ac addysg.



Gall pob **Bwrdd** hefyd gael help gan rywun fydd yn dweud wrthyn nhw pa mor dda mae eu cynllun nhw yn gweithio.



Byddwn ni'n helpu pobl i gychwyn ffyrdd ar gyfer aelodau **Bwrdd** sydd mewn **grŵp gwarchodedig** i gefnogi ei gilydd.

5. Gwella arweiniad



Mae arnon ni eisiau i **arweinwyr** gredu'n gryf mewn tegwch pan fyddan nhw'n meddwl ynghylch pwy ddylai fod ar **Fwrdd**.



Mae **arweinwyr** yn bobl sy'n arwain pobl eraill i gael pethau wedi'i gwneud.



Gall **arweinwyr** gynnwys:

- Aelodau o **Fwrdd**.
- Y bobl sy'n rheoli'r **Byrddau**.
- **Gweinidogion Llywodraeth Cymru**.





- Y bobl sy'n gweithio yn **Llywodraeth Cymru**.



Byddwn ni'n hyfforddi **arweinwyr** ynghylch tegwch a pha mor bwysig yw hi i gynnwys pobl.



A byddwn ni'n gofyn i bawb sy'n gweithio i **Lywodraeth Cymru** drin pobl eraill â **pharch**.



Mae **parch** yn meddwl derbyn rhywun am yr hyn ydy o a'i werthfawrogi.

Sut byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod ein cynllun ni yn gweithio




Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod popeth rydyn ni wedi'i ddweud yn y cynllun hwn yn digwydd er mwyn i'r **Byrddau** gynnwys mwy o bobl.



Mae llawer o bobl yn barod yn gweithio i **Lywodraeth Cymru** a mudiadau eraill fydd yn helpu.



Byddwn ni'n cychwyn grŵp newydd fydd yn cael ei alw'n **Grŵp Rheoli Amrywiaeth a Chynhwysiant** mewn Penodiadau Cyhoeddus.



Bydd y grŵp yn edrych a yw'r cynllun yn cael ei ddefnyddio ac a yw e'ngweithio.



Bydd y grŵp yn ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn i ddweud pa mor dda mae'r cynllun yn gweithio a dweud a oes arnon ni angen ei newid.



Rydyn ni wedi cychwyn **Tîm Penodiadau Cyhoeddus**. Maen nhw'n helpu **Gweinidogion Cymru** i benderfynu pwy ddylai gael swydd fel aelod o **Fwrdd**.



Byddan nhw'n helpu gyda llawer o'r pethau rydyn ni wedi dweud y byddwn ni'n eu gwneud yn y cynllun hwn.



Bydd aelodau **Bwrdd** o **grwpiau gwarchodedig** yn cael eu gwahodd i ymuno â grŵp sy'n cael ei alw'n **Rhwydwaith y Bwrdd Amrywiaeth a Chynhwysiant**.



Bydd aelodau o'r grŵp hwn yn cefnogi pobl eraill o **grwpiau gwarchodedig** i ddysgu pethau newydd. Ac fe fyddan nhw'n rhannu eu profiadau eu hunain â nhw.

Geiriau Anodd

Amgylchedd

Yr amgylchedd yw'r lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr a'r aer, a phopeth sy'n byw arno neu ynddofe. Er enghraifft: planhigion, anifeiliaid a physgod.

Arweinwyr

Mae arweinwyr yn bobl sy'n arwain pobl eraill i gael pethau wedi'i gwneud.

Bwrdd

Mae Bwrdd yn grŵp o bobl sy'n dweud wrth fudiadau sut i weithio'n dda a gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gwneud gwaith da.

Cyrff Cyhoeddus

Mae Cyrff Cyhoeddus yn sefydliadau sy'n cael eu cychwyn gan Lywodraeth Cymru i helpu rhedeg Cymru mewn ffordd dda.

Grŵp Gwarchodedig

Mae grŵp gwarchodedig yn grŵp o bobl y mae arnon ni angen meddwl yn ofalus amdany'n nhw, i wneud yn siŵr nad ydyn nhw'n cael eu trin yn annheg.

Efallai y byddan nhw'n cael eu trin yn annheg oherwydd pethau fel eu hoed, anabledd neu oherwydd eu bod yn ddu neu o leiafrif ethnig.

Gweinidog

Mae gweinidog yn aelod o Lywodraeth Cymru sydd â gofal am rywbeth. Fel iechydd ac addysg.

Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol neu Drawsrywiol

Mae Lesbiaidd yn meddwl menyw sy'n cael ei denu at fenywod.

Mae Hoyw yn meddwl dyn sy'n cael ei ddenu at ddynion.

Mae Deurywiol yn meddwl person sy'n cael ei ddenu at ddynion a menywod.

Mae Trawsrywiol yn meddwl rhywun sydd wedi'i eni fel un rhyw ond sydd eisiau byw fel y rhyw arall. Er enghraifft gall person sydd wedi'i eni'n fachgen deimlo fel menyw y tu mewn.

Parch

Mae parch yn meddwl derbyn rhywun am yr hyn ydy o a'i werthfawrogi.

Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

Mae Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn meddwl pobl sy'n ddu, yn Asiaidd neu sydd o wahanol ddiwylliannau a thraddodiadau i'r rhan fwyaf o'r bobl yn eu cymuned nhw.